

CLYBIAU GOFAL

MENTER PLANT Y CWM CYF

Y CLWB AR ÔL YSGOL

Mae'r Clwb Ar ôl Ysgol yn gyfleuster Clwb Gofal sy'n cynnig gofal am blentyn ar ôl oriau ysgol. Nid yw'n wasanaeth mynediad agored a rhaid cofrestru plant yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn er mwyn mynychu Clwb Ar ôl ysgol.

Mae rhai o'r Clybiau Ar ôl Ysgol yn ddigofrestredig, yn llai na 2 awr o hyd, ac heb eu cofrestru gydag AGGCC.

TELERAU AC AMODAU

Trwy gydol y Telerau ac Amodau gelwir Menter Plant y Cwm Cyf yn Blant y Cwm.
Mae'r Telerau ac Amodau hyn mewn grym o 1af Ionawr 2018 ymlaen.

1. CYFFREDINOL

- 1) Bydd Clybiau Ar ôl Ysgol o dan reolaeth a goruchwyliaeth Plant y Cwm yn gweithredu yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn.
- 2) Gellir diweddarau'r Telerau ac Amodau hyn o bryd i'w gilydd yn ôl doethineb llwyr Plant y Cwm. Rhoddir rhybudd rhesymol o unrhyw ddiweddariad.

1.1 ARCHEBU LLE

1.1.1 Sesiynau

- a. Rhaid i geisiadau i fynychu Sesiwn Clwb ar ôl Ysgol fod yn ysgrifenedig trwy gwblhau a dychwelyd y Ffurflen Gofrestru. Bydd gwneud hyn yn cynnwys derbyn y Telerau a'r Amodau hyn. Gweler ymhellach yng Nghymal 6.1 isod (Cofrestru)
- b. Hysbysir y rhiant/gofalwr o fewn amser rhesymol os ydyn nhw wedi llwyddo i gael lle yn eu dewis o Glwb Ar ôl Ysgol

1.1.2 Argaeledd Sesiwn

- a. Mae'r Clwb ar ôl Ysgol ar gael yn unig i blant sy'n mynychu ysgol gynradd a bydd yn rhedeg o ddiwedd diwrnod ysgol i'r amser a ddynodwyd i orffen, pan fydd yn rhaid cvasglu'r plentyn gan eu rhiant/gofalwr.
- b. Ni fydd sesiynau yn ystod gwyliau ysgol na chwaith sr ddiwrnod olaf tymhorau'r Hydref, Gwanwyn a Haf na diwrnodau hyfforddiant mewn swydd.

1.1.3 Newidiadau i Sesiynau a archebwyl

Ni ellir rhoi ad-daliad am sesiynau sy wedi eu harchebu heblaw am yr achosion canlynol:

- a. Cau'r clwb mewn amgylchiadau annisgwyl; neu
- b. Plentyn yn colli pum sesiwn neu fwy oherwydd salwch. Bydd angen tystysgrif feddygol.

2. FFFIOEDD

2.1 PRISIAU CLWB AR ÔL YSGOL

- a. Disgrifir y ffi fesul Sesiwn Reolaidd, gan gynnwys lluniaeth yn y Ffurflen Gofrestru.
- b. Disgrifir y ffi fesul Sesiwn Ad-hoc, gan gynnwys lluniaeth yn y Ffurflen Gofrestru.

2.2 TALIADAU AR GYFER SESIYNAU A ARCHEBWYD/MYNYCHWYD & CHOSBAU

- a. Dylid archebu Sesiwn o leiaf dau ddiwrnod ymlaen llaw.
- b. Rhaid talu pob ffi a chostau i'r Goruchwyliwr gyda siec sydd wedi'i chlirio neu gydag arian parod.cyn cychwyn y Sesiwn/Sesiynau ag eithrio Sesiynau Ad- hoc y gellir eu talu gydag arian ar y diwrnod.
- c. Gall y Clwb ar ôl Ysgol wrthod mynediad os bydd unrhyw daliad gyda siec heb ei chlirio.
- d. O safbwynt Sesiynau Ad-hoc os caiff rhiant/gofalwr wybod bod y Sesiynau ar gael a'u bod yn dewis peidio a danfon eu plentyn, codir tâl o hyd
- e. O ran Sesiynau Rheolaidd bydd rhaid danfon mis o rybudd ysgrifenedig i ganslo lle plentyn yn y Clwb ar ôl Ysgol; yn ystod y cyfnod hwn bydd rhaid talu'r tâl.
- f. Bydd y sawl sydd ar restr aros y Clwb ar ôl Ysgol yn derbyn galwad ffôn neu e bost unwaith y bydd lle ar gael, ar wahan i hynny dylent hysbysu'r Clwb ar ôl Ysgol os nad ydynt am barhau ar y rhestr aros.
- g. Ni fydd ad daliad os bydd plentyn wedi mynychu rhan o Sesiwn.
- h. Ni fydd rhan o ad daliad yn cael ei roi os bydd plentyn yn gadael cyn cael bwyd.
- i. Ni fydd ad daliad yn cael ei roi os bydd plentyn yn anghynwsedig yn unol a Chymal 3.1,3.2 (Ar Sail Gwaharddiad)
- j. Ni ofynnir am ffioedd os bydd disgybl yn methu mynychu'r Clwb ar ôl Ysgol am ei fod ar gwrs preswyl sydd wedi'i drefnu gan yr Ysgol.
- k. Bydd cyrraedd yn hwyr cyson yn esgor ar gosb ariannol. Gweler Gymal 2.5 (Cosbedigaethau)

2.3 ARCHEBU SESIYNAU YCHWANEGOL

- a. Bydd cynnig Sesiynau ychwanegol y gofynnir amdanynt gan rieni/ofalwyr yn dibynnu ar argaeledd gan fod yn rhaid i'r Clwb ar ôl Ysgol sicrhau bod digon o staff/gofalwyr yn bresennol i gydymffurfio â rheolau statudol.
- b. Ni ddylai un rhiant/gofalwr gymryd yn ganiataol bod archeb wedi'i dderbyn nes i aelod o staff y Clwb ar ol Ysgol gadarnhau'r archeb.
- c. Os bydd plentyn yn dod i'r Cwb ar ôl Ysgol I fynychu Sesiynau ychwanegol heb i'r rhiant/gofalwr archebu lle bydd rhaid talu dirwy o £10 yn ychwanegol i'r tâl arferol.

2.4 CYFRIFOLDEB TALU

- a. Mae cyfrifoldeb am dalu'r holl ffioedd/taliadau a chosb ariannol yn gorwedd yn nwylo'r rhiant/gofalwr neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant. .
- b. Nid yw methiant ar ran Y Clwb ar ôl Ysgol i ofyn am dâl ysgrifenedig neu lafar yn golygu ildio'r hawl, esgus neu rheswm dros dâl hwyr neu beidio talu o gwbl.

2.5 COSBEDIGAETHAU

- a. Cyfrifoldeb rhieni/gofalwyr yw i gasglu'r plant yn brydlon ar ddiwedd y Sesiwn y Clwb ar ôl Ysgol.
- b. Codir cosb ariannol o £10 am bob chwarter awr y bydd y rhieni /gofalwr yn hwyr yn casglu'r plentyn o'r Clwb ar ôl Ysgol a bydd rhaid talu hyn cyn y gall y plentyn ddychwelyd i'r Clwb ar ôl Ysgol.
- c. Bydd methu â thalu ffioedd neu/ a chosb ariannol olygu y gall y Clwb ar ôl Ysgol gymeryd camau (gan gynnwys camau cyfreithiol) i gasglu'r holl arian dyledus gan roi'r hawl i wahardd plentyn o Sesiynau dilynol.
- d. Lle nad yw'r gosb ariannol wedi'i thalu a Sesiynau wedi'u harchebu ac wedi'u talu amdanynt gan y rhiant/gofalwr mae gan y Clwb ar ôl Ysgol yr hawl i wahardd plentyn nes i'r gosb ariannol gael ei thalu heb roi ad daliad am sesiynau heb eu mynychu

3. SAIL I WAHARDDIAD

3.1 Y PLENTYN

- a. Yn dibynnu ar ddoethineb y Clwb ar ôl Ysgol gall plentyn gael ei wahardd am ymddygiad gwael cyson (a hynny'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i fwlio, cam drin geiriol, cam-drin corfforol,/ymladd, digwyddiadau hiliol/herio/bod yn anghwrtais i eraill/twylo,/anufuddod-dod a difrod bwriadol i eiddo) neu Ddigwyddiadau difrifol achlysurol (er enghraifft sy'n peryglu plant a staff)
- b. Bydd y staff yn cofnodi ymddygiad gwael. Bydd tri chofnod yn golygu y gall y plentyn gael ei wahardd dros dro neu yn barhaol.

3.2 RHIENI

3.2.1 Yn ôl doethineb llwyr y Clwb ar ôl Ysgol gall plentyn gael ei wahardd os bydd :

- (a) Rhiant/gofalwr yn herio Gwarchodwr neu Blant y Cwm mewn unrhyw ffordd a/ neu os bydd Rhiant/gofalwr yn esgeuloso y Telerau ac Amodau

3.2.2 Ni fydd gan yr ysgol yr awdurdod mewn unrhyw benderfyniad i wahardd plentyn o'r Clwb ar ôl Ysgol.

4. HAWLIAU, MATERION CYFREITHIOL AC ATEBOLRWYDD CYFYNGEDIG

4.1 HAWLIAU

- a. Mae gan y Clwb ar ôl Ysgol yr hawl i gau'r clwb os oes prinder staff, diffyg cyfleusterau, neu unrhyw rheswm arall ym marn y clwb y mae angen cau. Rhoddir y wybodaeth berthnasol o fewn rheswm

4.2 CYFREITHIOL: ILDIO HAWL, GWAHARDDIADAU, DEDDF LYWODRAETHOL & AWDURDODAETH

- b. Mae'r contract hwn yn cael ei weithredu yn gyfan gwbl gan Blant y Cwm.
- c. Ni fydd methiant neu oedi ar ran Plant y Cwm i weithredu unrhyw un o'i hawliau neu welliannau yn rhagfarnu neu effeithio ar ei allu i wneud hynny oni bai ei fod wedi darparu ildiad hawl neu ryddhad yn ysgrifenedig.
- d. Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn cael eu rheoli gan y Gyfraith Seisnig.
- e. Cyfeirir unrhyw anghydfod sy'n codi allan neu mewn cysylltiad â'r cytundeb hwn, yn cynnwys unrhyw gwestiwn parthed ei fodolaeth, dilysrwydd neu derfyniad i gyflafareddiad a'i ddatrys drwy hynny o dan reolau LCIA, y tybir iddynt gael eu hymgorffori yn y cymal hwn.
- f. Nifer y cyflafareddwyr fydd un.
- g. Bydd sedd, neu le cyfreithiol y cyflafareddu yn y DU.
- h. Yr iaith i'w defnyddio yn yr achosion cyflafareddu fydd y Saesneg
- i. Deddf lywodraethol y cytundeb fydd cyfraith derfynol Lloegr.

4.3 ATEBOLRWYDD CYFYNGEDIG

- a. Ar wahân i'r hyn a fynegir yn y Telerau ac Amodau ni fydd Plant y Cwm yn atebol i unrhyw golled uniongyrchol neu anuniongyrchol a brofir o ganlyniad i gau Clwb ar ôl Ysgol, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i elw, costau cynyddol neu dreuliau neu wariant gwastraffus.
- b. Nid yw Plant y Cwm yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eitemau coll neu ddifrod personol (yn cynnwys colled o-ddilynol) sydd wedi dod ar y lleoliad gan blant neu rieni.
- c. Mae Plant y Cwm yn eithrio unrhyw atebolrwydd am unrhyw niwed i'r maint llawnaf a ganiateir gan y gyf

5. RHEOLI AMODAU

5.1 SALWCH

- a. Mae'n rhaid i rieni hysbysu'r Clwb ar ôl Ysgol os yw'r plentyn yn dioddef o broblem feddygol neu wedi bod mewn cysylltiad â chlefydau heintus.
- b. Mae'n rhaid i rieni/gofalwyr ddilyn yr un canllawiau â'r ysgol o ran tostrwydd. Ni ddylid dod â phlentyn i'r Clwb ar ôl Ysgol os yw'n sâl.
- c. Ni fydd y Clwb ar ol Ysgol yn darparu unrhyw feddyginiaeth i blentyn yn ei ofal.

5.2 DAMWEINIAU

- a. Bydd pob damwain y bydd y staff yn ymwybodol ohonynt yn cael eu cofnodi mewn Llyfr Damweiniau ac yn cael eu rhaeadru i rieni/gofalwyr.

5.3 TYWYDD GARW

- a. Os bydd rhaid cau'r Clwb ar ôl Ysgol oherwydd tywydd garw yn ystod y diwrnod, hysbysir rhieni/gofalwyr trwy system cysylltu'r ysgol.
- b. Os bydd rhaid cau'r Clwb ar ôl Ysgol yn ystod Sesiwn oherwydd tywydd garw, hysbysir y rhieni/gofalwyr trwy alwad ffôn.

5.4 ANAWSTERAU DYSGU A CHORFFOROL

- a. Bydd y Clwb ar ôl Ysgol yn dilyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 ac yn gwneud popeth i ateb gofynion plant ag anabledd.

5.5 PLANT SY'N ABSENNOL

- a. Bydd rhaid i riant/gofalwr hysbysu'r ysgol os nad yw ei plentyn yn medru mynychu'r Clwb ar ôl Ysgol.

5.6 YSWIRIANNAU

- a. Mae Plant y Cwm yn cadw at yr yswiriannau hynny sy'n cael eu pennu gan y gyfraith. Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn cael ei ddiogelu gan yswiriant Menter Cwm Gwendraeth Elli.

5.7 RHIENI YN CASGLU PLANT

- a. Nid oes hawl gan rieni/gofalwyr i fynd i mewn i'r Clwb ar ôl Ysgol. Cynhelir diwrnodau agored er mwyn i rieni/gofalwyr gael y cyfle i ymuno gyda'u plant ar ddiwrnod sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw.
- b. Er mwyn mynd i mewn i'r Clwb ar ôl Ysgol rhaid i rieni/gofalwyr ddefnyddio'r drws penodol a chanu'r gloch. Ni fydd staff y Clwb ar ôl Ysgol yn derbyn plant os na fyddant yn defnyddio'r fynedfa briodol.
- c. Dim ond y rhiant/gofalwr fydd yn cael casglu'r plentyn o'r Clwb ar ôl Ysgol
- d. Bydd rhaid i'r rhiant/gofalwr neu Oedolyn mewn Awdurdod arwyddo wrth i'r plentyn adael y Clwb ar ôl Ysgol bob diwrnod.
- e. Ni fydd gan yr ysgol yr awdurdod i reoli na rhedeg y Clwb ar ôl Ysgol ac ni fydd gan yr ysgol na rhiant/gofalwr unrhyw awdurdod o safbwynt dewis staff i ofalu am y Clwb ar ôl Ysgol.

5.8 CWYNION

- a. Os oes cwynion gan rieni/gofalwyr rhaid iddynt hysbysu Goruchwyliwr y Clwb ar ôl Ysgol. Mae Polisi Cwynion ar gael oddi wrth Plant y Cwm.

5.9 GWYBODAETH ANGENRHEIDIOL

- 1) Mae rhieni/gofalwyr yn cytuno i hysbysu'r Clwb ar ôl Ysgol o unrhyw wybodaeth angenrheidiol i ddiogelu neu hyrwyddo lles eu plentyn neu osgoi niwed i'w plentyn neu i eraill
- 2) Bydd staff y Clwb ar ôl Ysgol yn cael eu hysbysu o faterion sensitif ynglyn â phlentyn ar sail cyflwyno gwybodaeth.pellach

5.10 AMDDIFFYN PLANT

- a. Mae'n ddyletswydd ar y Goruchwyliwr i gyflwyno unrhyw wybodaeth fydd ganddi hi/ganddo fe ynglyn â diogelwch/lles plentyn i Awdurdod y Gwasanaethau Cymdeithasol Lles

COFRESTRU I GLWB AR ÔL YSGOL

6.1 COFRESTRU

- a. Rhaid i bob riant gwblhau Ffurflen Gofrestru yn llawn cyn i blentyn gael ei dderbyn i'r Clwb. Gellir cael Ffurflenni Cofrestru yn uniongyrchol o'r Clwb, o swyddfa Plant y Cwm, Menter Cwm Gwendraeth Elli neu ei lawr lwytho o'n gwefan. mcge.org.uk.
- b. Trwy arwyddo Ffurflen Gofrestredig lawn rydych yn cytuno i chi ddarllen, deall a derbyn y Telerau ac Amodau.
- c. Bydd copi llawn o'r Ffurflen Gofrestredig yn cael ei chadw gan y Clwb ar ôl Ysgol a'r rhiant/gofalwr
- d. Rhaid i rieni/gofalwyr wneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth ar y Ffurflen Gofrestru yn gywir a rhaid rhoi unrhyw newid yn syth i'r Goruchwyliwr., a hynny'n ysgrifenedig. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys: heb gyfyngiad, Gorchmynion Llys neu sefyllfaoedd risg yn ymwneud a'r plentyn y bydd angen ragofalon arbennig are u cyfer. Rhaid gwneud unrhyw newidiadau yn ysgrifenedig a'u derbyn gan y Clwb Ar Ôl Ysgol.

7. DIFFINIADAU

7.1 LLYFR DAMWENIAU

Mae'r Llyfr Damweiniau yn cael ei ddefnyddio i gofnodi manylion ynglyn â damweiniau all godi yn ystod y Clwb ar ôl Ysgol fel rhan o bolisi iechyd a diogelwch y clwb.

7.2 SESIYNAU AD HOC

Mae'r Sesiynau Clwb ar ôl Ysgol Ad hoc yn cael eu darparu pan nad oes angen darpariaeth reolaidd ar blentyn

7.3 CSSIW

Mae Aroluygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithsol, CSSIW, yn rheoli ac arolygu darparwyr gwasanaethau er mwyn gwella gwasanaethau oedolion, gofal plant a chymdeithasol i bobol yng Nghymru.

7.4 LCIA

Cydnabyddir y **London Court of International Arbitration (LCIA)** yn fyd eang fel un o'r prif sefydliadau cyflafareddol.

7.5 MENTER PLANT Y CWM LTD

Menter Plant y Cwm Cyf, y cyfeiri ato fel Plant y Cwm yn y Telerau ac Amodau hyn, yw'r unig barti contractio i'r cytundeb hwn.

7.6 COFRESTRU

Mae'r ffurflen hon yn atodiad 1 i'r Telerau ac Amodau hyn

7.7 SESIYNAU RHEOLAIDD

Mae'r Sesiynau Clwb ar ôl Ysgol hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y tymor.

7.8 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Darperir Gwasanaeth Cymdeithasol gan lywodraeth lleol neu genedlaethol neu sefydliad arall i helpu pobol sydd angen cefnogaeth

7.9 SESIYNAU

Sesiwn Rholaidd neu Sesiwn Ad-hoc, fel sy'n gymwys.

7.10 GORUCHWYLIWR

Bydd y Sesiynau gofal plant Clwb ar Ôl Ysgol hyn o dan ofal Goruchwyliwr sy'n aelod hyn hyfforddedig o'r staff gofal.

8.MANYLION Y CWMNI

8.1 MENTER PLANT Y CWM CYF

Cwmni Cyf trwy Warrant Heb

Gyfalaf Cyfranddaliadau

Cofrestrwyd yng Nghymru: 06567471

Rydw i wedi darllen, deall a chytuno i gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn.

Enw'r plentyn: _____

Llofnod Rhiant/Gwarchodwr: _____

Printiwch yr Enw _____

Perthynas i'r plentyn: _____

Llofnod Arolygwr _____ Printiwch yr Enw yn llawn: _____

Dyddiad: _____

Cadwch y copi hwn wedi'i arwyddo. Cedwir copi wedi'i arwyddo hefyd gan Blant Y Cwm/ / MCGE

Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn dod i rym ar Ionawr 1af 2018